Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Homestead Day Nursery Ltd

**Hen Ffordd Wrecsam**
**Gresffordd**
**Wrecsam**
**LL12 8UA**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Homestead Day Nursery Ltd

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Homestead Day Nursery Ltd |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Rachel Anne Lloyd a Kim Lesley Jones |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Rachel Lloyd, Amanda Jones a Zoe Johnson |
| Nifer y lleoedd | 146 |
| Ystod oedran y plant | 0 – 12 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 68 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 19 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener, 7.30 – 18.00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' y Gymraeg ac nid yw'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg na'i diwylliant. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 01/09/2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Dim arolygiad blaenorol. |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 05/03/2024 |
| Mae pob un o'r plant sy'n mynychu yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Yr amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod ymarferwyr yn defnyddio ymadroddion a geirfa Gymraeg syml fel bod plant yn datblygu eu dealltwriaeth

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar ei waith yn ymwneud â chreu amgylchedd dysgu cyfoethog ac ysgogol i gefnogi annibyniaeth plant, yn ogystal â defnyddio canfyddiadau o ymchwil i greu ymagwedd bersonoledig at ddarpariaeth, i'w lledaenu ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Rhagorol**

Mae plant yn cyfathrebu'n hyderus iawn gan ddefnyddio ciwiau geiriol a dieiriau priodol. Maent yn gwneud yn siŵr fod pobl yn eu deall trwy ddefnyddio cyfuniad o ystumiau llaw ac amrywiaeth gynyddol o eirfa briodol. Maent yn gofyn cwestiynau ac yn trafod eu diddordebau'n aeddfed, gan wybod y gwrandewir arnynt a bod eu cyfraniadau'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Mae plant yn mynegi eu hunain yn dda ac yn gwneud penderfyniadau cwbl wybodus ynglŷn â beth maent eisiau chwarae ag e, a ble, wrth iddynt symud o gwmpas yr amgylcheddau dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn gwneud defnydd da o fynediad rhydd i'r ardaloedd yn yr awyr agored ac yn symud rhwng y ddwy ardal yn rhwydd. Mae plant yn rhannu eu hanghenion a'u diddordebau gydag ymarferwyr yn effeithiol ac yn gwybod y gweithredir arnynt.

Mae gan blant ymdeimlad cryf o berthyn i'r lleoliad ac maent yn gyfarwydd iawn ag arferion dyddiol. O ganlyniad, maent yn ymdopi'n eithriadol o dda â gwahanu. Mae plant yn ffurfio perthnasoedd cryf a chadarn iawn ag oedolion, ac mae cyfarchiad boreol gan ymarferwr cyfarwydd yn eu helpu i ddatblygu cysylltiadau rhagorol. Maent yn ffurfio cyfeillgarwch gwerthfawr sy'n eu cynorthwyo i ymlacio a bod yn barod i fwynhau eu hamser yn y lleoliad. Mae plant yn teimlo'n gyfforddus iawn yn eu hamgylchoedd sy'n eu cynorthwyo i chwarae a dysgu'n llwyddiannus. Er enghraifft,

pan mae plentyn yn gollwng ei ginio, mae'n teimlo'n ddigynnwrf a hyderus gan wybod y bydd ymarferwyr yn ei dywys a'i gynorthwyo.

Mae plant yn rhyngweithio ag eraill yn frwdfrydig. Maent yn cymryd rhan yn dda mewn gweithgareddau grŵp ac yn datblygu eu gallu i ganolbwyntio am gyfnodau amser hirach. Maent yn dechrau deall cysyniad rhannu, yn cydweithredu'n dda â'u cyfoedion ac yn dangos gallu cynyddol i gymryd eu tro. Er enghraifft, wrth ymchwilio yn yr ardal awyr agored gyda'u ffrindiau, maent yn chwarae ac yn aros eu tro yn amyneddgar cyn dringo'r llethr i'r tŷ pen coeden. Mae plant yn gweithio gyda'i gilydd yn dda. Er enghraifft, wrth adeiladu cwrs rhwystrau o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu, maent yn cynorthwyo'i gilydd yn hyderus i gwblhau eu hadeiladwaith yn llwyddiannus. Mae plant yn dangos parch da at eiddo ac yn defnyddio adnoddau'n briodol. Maent yn ofalus wrth ddefnyddio morthwylion a llifiau, gan ddangos dealltwriaeth dda o fod yn ddiogel.

Mae plant yn dangos lefel uchel o gymhelliant tuag at eu chwarae. Maent yn cymryd rhan weithredol mewn cyfleoedd dysgu cyffrous ac ysgogol, sy'n eu galluogi i ddysgu oddi wrth eu camgymeriadau. Maent yn archwilio'u hamgylchedd yn annibynnol, ac yn dilyn eu diddordebau'n rhydd, gan lwyddo i fagu hyder wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau dan do ac yn yr awyr agored. Mae plant yn ymgysylltu'n llawn yn eu gweithgareddau ac yn canolbwyntio am gyfnod amser sy'n briodol i'w hoedran a'u cyfnod datblygu, er enghraifft wrth arbrofi â chasgliad cyffrous o eitemau i gymysgu diodydd yn y gegin fwd. Maent yn ymuno â chaneuon a rhigymau, gan wenu a chwerthin wrth iddynt gwblhau'r symudiadau.

Mae plant yn hyderus wrth ymchwilio a rhoi cynnig ar bethau drostynt eu hunain. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o'u hamgylchedd, yn defnyddio adnoddau'n annibynnol ac yn dangos lefel uchel o wydnwch. Wrth iddynt symud ymlaen trwy'r lleoliad, daw plant yn fwyfwy hunanddibynnol, maent yn chwarae bod yn oedolion ac yn ymhyfrydu yn y cyfrifoldeb sy'n cael ei roi iddynt. Er enghraifft, yn y caffi, mae plant ifanc iawn yn gweini cinio iddyn nhw eu hunain o bowlenni sy'n cael eu rhoi ar y byrddau, ac mae plant hŷn yn casglu eu platiau ac yn gweini eu hunain o orsaf ganolog cyn mynd â'u platiau i'w seddi dewisol.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol**

Mae bron pob un o'r plant, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da iawn o'u man cychwyn. Mae plant yn datblygu medrau cyfathrebu da iawn ac yn ffurfio medrau rhyngbersonol rhagorol â'u cyfoedion. Wrth iddynt ddatblygu, maent yn magu hyder i gyfathrebu ag oedolion, ac yn ffurfio perthnasoedd parchus yn gyflym gydag ymwelwyr. Dangosant allu da i gyfleu strwythurau brawddeg sylfaenol, ac mae llawer ohonynt yn siarad gan ddefnyddio brawddegau cynyddol aeddfed yn ystod sgyrsiau ystyrlon. Dangosant allu naturiol i ymateb i giwiau cymdeithasol, ac mae ychydig o blant sydd â geirfa ddatblygol yn cyfathrebu'n llwyddiannus gan ddefnyddio geiriau ac ystumiau sylfaenol.

Mae bron pob un o'r plant yn gwrando'n dda yn ystod amser stori ac yn dangos dealltwriaeth dda iawn o'r cynnwys. Maent yn dangos cariad naturiol at lyfrau, ac yn

estyn am fagiau llyfrau yn annibynnol, gan ddeall bod y cymeriadau y tu mewn i bob un ohonynt yn gysylltiedig â'r llyfr hwnnw. Maent yn mynegi pryder pan fydd cymeriad ar goll ac yn ceisio chwilio amdano mewn sachau stori eraill. Dangosant ddealltwriaeth dda o storïau, er enghraifft wrth ail-greu rhannau o The Gruffalo wrth iddynt chwarae gyda'i gilydd. Mae plant yn mwynhau canu ac ymuno â chaneuon Cymraeg ac yn gwrando'n dda ar storïau Cymraeg yn ystod eu sesiwn 'Amser Gyda'n Gilydd'. Mae lleiafrif o blant yn datblygu eu hyder i ddefnyddio geiriau Cymraeg am ychydig o liwiau yn eu chwarae. Fodd bynnag, mae eu dealltwriaeth o ystod ehangach o eirfa Gymraeg sylfaenol yn gyfyngedig.

Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio'u chwilfrydedd i ddatblygu medrau da wrth greu marciau ac atgyfnerthu eu medrau'n dda, er enghraifft trwy dynnu llun o amgylch eu dwylo gyda phennau aroleuo ar bapur du sgleiniog. Mae ychydig o blant yn defnyddio padiau ysgrifennu bach i gofnodi enwau pobl gan ddefnyddio darluniadau ysgrifennu cynnar, ac mae plant eraill yn datblygu cydsymud da rhwng y llaw a'r llygad pan fyddant yn peintio'r waliau y tu allan â dŵr. Mae ychydig o blant yn dechrau dangos diddordeb mewn siapiau a ffurfiant llythrennau. Gallant weld y tebygrwydd rhwng y llythyren 's' a rhif '5', ac maent yn dechrau gwahaniaethu rhyngddynt.

Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio iaith fathemategol yn dda i archwilio a deall y byd o'u cwmpas. Er enghraifft, wrth ddysgu am esgyrn, maent yn cymharu meintiau ac yn trafod yr hiraf a'r byrraf. Dangosant ddealltwriaeth gynnar dda o lawer o gysyniadau mathemategol sylfaenol fel siapiau 3D a chymesuredd. Er enghraifft, tra'n ymchwilio â blociau adeiladu, maent yn creu lluniadau cymesur o adeiladau. Mae llawer ohonynt yn datblygu dealltwriaeth dda o gynhwysedd wrth iddynt ymgolli'n llwyr mewn tywallt mwclis sgleiniog o un cynhwysydd i un arall. Maent yn dechrau deall cysyniad llawn a gwag a bod tywallt y mwclis yn gyflymach na chario'r mwclis o un cynhwysydd i un arall. Mae plant yn dangos parchedig ofn a rhyfeddod wrth i ddelweddau o swigod o wahanol feintiau gael eu taflunio ar y wal. Maent yn deall yn gyflym beth yw'r gwahaniaeth rhwng swigod mawr a swigod bach ac yn rhannu hyn yn frwdfrydig â'u cyfoedion. O ganlyniad, mae plant yn dysgu'n dda oddi wrth ei gilydd. Maent yn dechrau dangos dealltwriaeth gynnar o rif, er enghraifft wrth osod canhwyllau pren ar gacen a chyfateb nifer y canhwyllau i'w hoedran. Mae ychydig iawn ohonynt yn defnyddio'u dealltwriaeth ymhellach i adio a thynnu rhifau i fyny i 5.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu medrau echddygol manwl da, er enghraifft wrth drin a thrafod tyllwr papur yn eu chwarae. Dangosant gydsymud da rhwng y llaw a'r llygad wrth iddynt forthwylio hoelion mewn blociau o bren a llifio planciau yn yr ysgol offer. Maent hefyd yn datblygu medrau echddygol bras da wrth iddynt ddringo coed yn hyderus, balansio ar hyd canghennau a rhedeg i fyny ac i lawr llethrau. Mae plant yn datblygu eu medrau balansio yn dda wrth iddynt deithio'n ofalus ar hyd planc sigledig o bren, gan asesu eu gallu eu hunain a chymryd risg gyfrifol. Maent yn datblygu'r medrau hyn ymhellach wrth iddynt herio'u hunain i ddringo ysgolion a stopio'n annibynnol ar uchder sy'n gyfforddus iddyn nhw.

Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio'u dychymyg yn dda i greu'n rhydd heb ganlyniadau terfynol rhagdybiedig. Maent yn datblygu chwilfrydedd gwych wrth iddynt

ddefnyddio tortshis i greu eu sioeau dawns eu hunain, yn gwisgo sbectol â lensys lliw i newid y byd o'u cwmpas a chwilio am hud mewn goleuadau dawnsio a deflir o bêl gliter. Mae sgyrsiau a gynhelir yn ystod chwarae creadigol plant yn eu galluogi i ddatblygu geirfa gyfoethog a dychymyg datblygedig.

Mae bron pob un o'r plant yn dangos medrau da wrth ddatrys problemau, er enghraifft wrth weithio gyda'i gilydd i adeiladu bws yn ystod chwarae â blociau. Maent yr un mor hyderus wrth weithio'n annibynnol, er enghraifft wrth geisio datrys sut i gario dŵr i fyny ysgol cyn ei dywallt yn y pen draw i lawr tiwb yn yr ardal awyr agored. Mae medrau digidol plant yn datblygu'n dda wrth iddynt ddefnyddio darganfyddwr metel bach, â phŵer batri, yn hyderus i chwilio am drysor yn y tywod.

**Gofal a datblygiad: Rhagorol**

Mae ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth dda am ddiogelu ac yn gwybod pa weithdrefn i'w dilyn os bydd ganddynt bryderon am blentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae ymarferwyr yn rhoi strategaethau cadarnhaol ar waith i sicrhau eu bod yn cadw plant yn ddiogel, gan gynnwys ymarfer driliau tân yn rheolaidd. O ganlyniad, mae oedolion a'r plant yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn mewn argyfwng. Mae ymarferwyr yn cynnal asesiadau risg effeithiol cyn mynd ar dripiau i sicrhau bod plant yn ddiogel. Mae ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth dda iawn o fanteision risg ac yn sicrhau bod plant yn rheoli eu risgiau eu hunain, tra'n cael eu goruchwylio'n ddiogel ac yn effeithiol.

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn dilyn arferion hylendid priodol i helpu atal lledaeniad germau. Caiff plant eu hannog i olchi eu dwylo ar adegau priodol, ac fe gaiff y drefn ar gyfer newid clytiau ei chwblhau'n briodol. Rhoddir cadachau sebonllyd i rai plant cyn ac ar ôl amseroedd prydau bwyd yn hytrach na sebon a dŵr rhedegog, a defnyddir tywel cyffredin. Mae ymarferwyr yn cefnogi plant yn llawn ac yn eu hannog yn llwyddiannus i gael ffordd iach o fyw, gan gynnig bwyd maethlon yn gyson. Rhoddir ystyriaeth fanwl i'r dewisiadau bwyd i ddiwallu anghenion unigol y plant. Er enghraifft, weithiau, caiff babanod ddewisiadau bwyd gwahanol i sicrhau eu bod yn diwallu eu hanghenion a'u gofynion datblygiadol yn llawn.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod pob un o'r plant yn cael mynediad at gyfleusterau o ansawdd da yn yr awyr agored sy'n eu hysbrydoli i fod yn greadigol ac egnïol yn yr awyr agored. Mae'r profiadau hyn yn helpu plant i ddysgu am y byd o'u cwmpas a datblygu mwynhad o fod y tu allan a gwerthfawrogi natur. Er enghraifft, mae ychydig ohonynt yn mwynhau'r cyfle i gysgu y tu allan mewn gwelyau clyd a sachau cysgu. Mae ymarferwyr yn gweithredu polisi effeithiol a phriodol ar gyfer rheoli ymddygiad ac yn defnyddio strategaethau cyson, sy'n briodol i oedran, i annog rhyngweithio cadarnhaol. Er enghraifft, maent yn annog plant yn dyner i rannu â'i gilydd os ydynt yn amharod i wneud hynny, ond yn deall y gallai hwn fod yn fater sensitif i'r plant dan sylw.

Mae ymarferwyr yn fodelau rôl rhagorol ar gyfer y plant, yn dangos diddordeb diffuant ac yn gwrando'n ymatebol ar blant, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae hyn yn annog plant i fod yn gyfathrebwyr hyderus a mynegi eu hunain yn

rhwydd. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn eistedd gyda phlant yn yr ardal gysurus, gan siarad â nhw am yr hyn y maent yn ei wneud, beth mae plant eraill yn ei wneud a diddordebau eraill fel eu teulu. Mae ymarferwyr yn defnyddio ystod helaeth o strategaethau yn llwyddiannus i gynorthwyo plant i ddatblygu eu lleferydd a'u hiaith. Maent yn gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol i roi arfer a chymorth effeithiol ar waith. Mae hyn yn cynnwys defnyddio iaith arwyddion yn gyson ac yn effeithiol i gynorthwyo plant â'u lleferydd a'u hiaith, a sicrhau eu bod yn gwneud cyswllt llygad ac yn defnyddio iaith glir, fel bod plant yn deall yr hyn sy'n cael ei ddweud wrthynt. Mae ymarferwyr yn defnyddio canmoliaeth yn llwyddiannus iawn i annog plant a'u helpu i deimlo'n falch o'u cyflawniadau a datblygu eu hunan-barch.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth helaeth am ddatblygiad y plentyn ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn gynhyrchiol i gynllunio cyfleoedd arloesol ar gyfer y plant. Maent yn darparu ystod ddiddorol a phwrpasol o weithgareddau i gynorthwyo plant i fod yn ddysgwyr chwilfrydig a gweithgar. Mae ymarferwyr yn ystyried datblygiad a diddordebau plant yn gyson ac yn gynhwysfawr i ddarparu amgylchedd dysgu cyfannol. Er enghraifft, maent yn ysbrydoli plant i arbrofi'n annibynnol yn yr ardal chwarae yn y dŵr trwy gyflwyno cynwysyddion metel mawr wedi'u llenwi â dŵr gwahanol liw i weld pa liwiau eraill sy'n gallu cael eu gwneud. Mae pob un o'r ymarferwyr yn ystyried diddordebau plant yn effeithiol iawn wrth gynllunio gweithgareddau ac adnoddau. Maent yn arsylwi plant yn rheolaidd ac yn gwybod beth maent yn ei fwynhau a pha fedrau y mae angen iddynt eu datblygu ymhellach. Mae hyn yn golygu bod cynllunio yn hynod effeithiol o ran darparu profiadau ysgogol ar gyfer pob un o'r plant, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu datblygiad. Mae ymarferwyr yn darparu'n dda ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn darparu cymorth teilwredig i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu a'u bod yn cael eu cynnwys yn llawn yn yr holl weithgareddau ac arferion, gan sicrhau eu bod yn datblygu hyd eithaf eu galluoedd ac yn cymryd rhan mewn ystod lawn o brofiadau.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol**

Mae ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth ragorol o bwysigrwydd dysgu trwy chwarae ac yn dilyn diddordebau plant yn dda. Maent yn darparu cyfleoedd bywyd go iawn o ansawdd uchel ar gyfer dysgu trwy amgylchedd sydd wedi'i gynllunio'n dda iawn. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o'r ardal ag adnoddau da yn yr awyr agored i ddatblygu medrau corfforol, creadigol, datrys problemau a chymdeithasol plant. Er enghraifft, maent yn cynllunio cyfleoedd helaeth i blant ddatblygu eu medrau yn yr ardal goediog lle mae plant yn cymryd rhan yn llawn mewn amser stori o gwmpas tân agored ac yn archwilio'u gallu i ddringo, siglo a balansio. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o'r gweithgareddau hyn i ddatblygu medrau rhifedd a llythrennedd plant ymhellach, yn ogystal â darparu cyfleoedd rhagorol iddynt weithio fel rhan o dîm a datrys problemau gyda'i gilydd.

Mae ymarferwyr yn cymell plant yn dda. Maent yn cynllunio cwricwlwm diddorol ac amrywiol sy'n ysbrydoli plant i fod yn ymholgar ac yn awyddus i ddysgu. Mae ymarferwyr yn gweithio'n dda gyda'r plant mewn ffordd sy'n eu galluogi i ymdrwytho mewn byd o adnoddau cyffrous ac ysbrydoledig sy'n gyfoethog o ran deunyddiau

wedi'u hwuchgylchu a'u hailgylchu, y maent yn eu defnyddio'n greadigol. Maent yn darparu cyfleoedd i blant archwilio'r adnoddau'n rhydd heb ganlyniadau terfynol rhagdybiedig. Mae'r amgylchedd yn cynnig cyfle i'r plant ddefnyddio'u dychymyg a datblygu eu medrau datrys problemau yn effeithiol iawn. Mae'r ardaloedd dysgu y tu mewn a'r tu allan yn cydgysylltu'n ddi-dor, gan alluogi plant i gael y rhyddid i archwilio'r amgylchedd dysgu trwy gydol y dydd a datblygu eu medrau'n raddol.

Mae staff yn cynllunio profiadau dysgu diddorol sy'n annog a chefnogi ymdeimlad greddfol naturiol plant i greu a bod yn greadigol. Mae'r arlunydd preswyl yn darparu cyfleoedd cyfoeothog i blant arbrofi â gwahanol fathau o gyfryngau fel paentiau a siarcol. Mae'r arlunydd yn cefnogi ac yn ymestyn diddordebau plant yn effeithiol, fel archwilio effaith golau mewn modd trefnus a phwyllog, ac yn galluogi'r plant i gael gofod ac amser i arsylwi, casglu gwybodaeth ac ymgolli yn eu hamgylchedd.

Mae ymarferwyr yn fodelau rôl iaith rhagorol. Maent yn gwneud defnydd effeithiol iawn o holi i annog plant i fynegi eu meddwl, datrys problemau a dysgu oddi wrth gamgymeriadau. Maent yn darparu cyfleoedd defnyddiol i blant ddatblygu eu medrau cyfathrebu ac yn ymateb yn dda i ddiddordeb plant mewn llyfrau a storïau wrth iddynt ddarllen storïau cyfarwydd iddynt, pan ofynnir iddynt. Fodd bynnag, mae eu gallu i gefnogi a datblygu gallu plant mewn defnyddio'r Gymraeg yn gyfyngedig. Maent yn helpu plant i ddatblygu ymwybyddiaeth briodol o ddiwylliant Cymru a pherthyn trwy ddigwyddiadau dathlu fel Dydd Gŵyl Dewi. Mae ymarferwyr yn darparu gweithgareddau ac adnoddau diddorol sy'n helpu datblygu chwilfrydedd a medrau mathemategol cynnar gyda chyfleoedd i fesur, cyfrif a didoli gwrthrychau dan do ac yn yr awyr agored, fel ei gilydd.

Mae ymarferwyr yn cynnig amrywiaeth o brofiadau gwerthfawr i gynorthwyo plant â datblygu eu medrau echddygol manwl a'u medrau creu marciau cynnar. Maent yn cyflwyno plant i'r byd digidol yn effeithiol trwy gasgliad o adnoddau fel llyfrau digidol, taflunyddion, a darganfyddwyr metel. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol plant yn dda. Maent yn cynnig cyfleoedd priodol i blant ddysgu am wyliau a diwylliannau o bob cwr o'r byd, ac yn darparu ystod o lyfrau ac adnoddau i ennyn diddordeb plant yn eu bywydau nhw a bywydau pobl eraill. Maent yn darparu gofod synhwyraidd tawel a hamddenol i ganiatáu cyfleoedd i blant fod yn dawel a myfyriol, yn ogystal â datblygu synnwyr o chwilfrydedd.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ymweld â'r gymuned leol. Mae tripiau i'r llyfrgell leol a theithiau cerdded o gwmpas y llyn lleol yn darparu cyfleoedd defnyddiol i annog plant i adnabod adar lleol a datblygu ymdeimlad o berthyn i'w hamgylchedd lleol.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth ragorol o ddatblygiad y plentyn. Maent yn ymateb yn dda i ddiddordebau a chyfnod datblygu plant ac yn cofnodi arsylwadau gwerthfawr i ddangos cynnydd plant. Maent yn cynllunio gweithgareddau yn y dyfodol yn ddeallus fel eu bod yn diwallu anghenion y plant ac yn datblygu eu cyfareddion. Mae ymarferwyr yn gwneud addasiadau sydyn i'w darpariaeth i ymateb i ddysgu'r plant. Mae'r hyblygrwydd hwn yn caniatáu ar gyfer cyfleoedd pwrpasol i ymestyn cynnydd

plant. Mae trafodaethau rheolaidd â rhieni yn rhoi dealltwriaeth well i staff o gryfderau eu plentyn a'i feysydd i'w datblygu.

**Yr amgylchedd:  Rhagorol**

Mae arweinwyr wedi'u cymell ac yn ymroi i ddarparu amgylchedd sy'n arloesol ac yn ysgogol, fel ei gilydd. Maent wedi rhoi mesurau risg effeithiol a mesurau diogelwch priodol gyda mynediad rheoledig ar waith i sicrhau ei fod yn ofod diogel a saff i blant. Caiff yr amgylchedd ei gynnal yn dda, ac fe gaiff peryglon eu dileu cyhyd ag y bo'n rhesymol bosibl. Mae arweinwyr yn flaengar ac yn hynod greadigol wrth ddarparu amgylchedd sy'n ddiogel a saff, sy'n galluogi plant i arbrofi a chymryd risgiau.

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd sy'n ysbrydoledig ac wedi'i ddylunio'n greadigol, lle caiff pob ardal ei defnyddio i'w llawn botensial. Er enghraifft, datblygwyd ystafell a oedd yn gwpwrdd storio o'r blaen i greu ardal chwarae yn y dŵr. Mae'n cynnwys amrywiaeth o adnoddau gwahanol fel sinc mawr a sawl pen cawod, y mae plant yn mwynhau eu harchwilio. Mae arweinwyr yn rhoi ystyriaeth briodol i bob agwedd ar yr amgylchedd, ac o ganlyniad, maent yn darparu gofodau cynnes a chroesawgar sy'n ysbrydoli cyffro a disgwyliad plant. Mae lliwiau niwtral, deunyddiau naturiol ac amrywiaeth o blanhigion yn darparu ardaloedd ar gyfer plant lle gallant ganolbwyntio a chymryd rhan yn eu gweithgareddau. Mae corneli wedi'u haddurno sy'n cynrychioli coedwig a bywyd gwyllt yn ysgogi dychymyg plant yn dda, ac mae goleuadau hwyliau creadigol yn gwella'r amgylchedd ymhellach. Mae mynediad uniongyrchol at ofodau chwarae saff yn yr awyr agored yn darparu gofodau creadigol sy'n galluogi plant i ymchwilio a dysgu'n rhydd. Er enghraifft, mae bonion a changhennau coed yn annog plant i archwilio a chymryd risgiau tra bod twnnel yn cynnig dimensiwn gwahanol i ddysgu'r plant.

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer yr amgylchedd. Maent yn darparu adnoddau pwrpasol sy'n cefnogi datblygiad cyfannol plant mewn ffordd gyffrous ac arloesol. Mae arweinwyr yn ystyried datblygiad plant yn dda ac yn sicrhau mynediad priodol at weithgareddau sy'n ymestyn ac yn adeiladu at alluoedd unigolion yn effeithiol iawn wrth iddynt symud trwy'r lleoliad. Maent yn defnyddio hen ddodrefn, planhigion a drychau yn greadigol ac yn llwyddiannus i greu amgylchedd cynnes a chartrefol lle mae plant, ymarferwyr ac ymwelwyr yn teimlo wedi ymlacio. Caiff yr amgylchedd ei wella ymhellach gan ystod o adnoddau dychmygus sy'n ysgogi synhwyrau plant yn eithriadol o dda. Er enghraifft, caiff ffrwythau ffres a ffrwythau sych, perlysiau ffres go iawn ac ardaloedd cerddorol gyda phiano segur â'i weithrediadau wedi'u hamlygu, eu defnyddio'n effeithiol i ennyn chwilfrydedd. Maent yn defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu a deunyddiau naturiol yn helaeth drwyddi draw i ymestyn chwarae a dysgu'r plant yn effeithiol. Er enghraifft, roedd babanod yn hoff iawn o deimlo ac arogli'r ffrwythau a oedd ar gael yn rhwydd, gan ddatblygu eu synhwyrau a'u chwilfrydedd. Maent yn cynnig amgylchedd unigryw sy'n cynnwys casgliad helaeth o adnoddau dychmygus, cyffrous a chreadigol sy'n hunangymell plant i fod yn ddysgwyr annibynnol. Mae hyn yn gryfder yn yr amgylchedd.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae arweinwyr wedi creu awyrgylch cynnes, gofalgar a chartrefol yn y lleoliad. Mae ganddynt weledigaeth glir sy'n canolbwyntio'n fanwl ar sefydlu ymagwedd gyfannol at les a chynnydd pob plentyn. Mae'r ffordd y mae arweinwyr wedi rhoi ystyriaeth fanwl i bob ystafell yn allweddol i'w llwyddiant, gan sicrhau y darperir ar gyfer datblygiad plentyn i'r safon orau posibl. Mae arweinwyr yn seilio'u darpariaeth ar yr ymchwil fwyaf cyfoes, sy'n sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w addysg. Maent yn nodi cryfderau'r lleoliad a'i feysydd i'w datblygu yn gywir ac yn defnyddio canfyddiadau o'u hymchwil, eu hymweliadau ac o weithio ochr yn ochr ag addysgwr i greu lleoliad sy'n unigryw a phersonoledig. Mae hon yn nodwedd ragorol yn y lleoliad.

Mae arweinwyr yn gwerthuso gwaith y lleoliad yn dda, ac mae cynllunio gwelliant yn effeithiol ac yn cael effaith gadarnhaol. Maent yn casglu gwybodaeth o arsylwadau rheolaidd wrth gerdded o gwmpas, sy'n canolbwyntio ar feysydd fel effeithiolrwydd yr amgylchedd wrth gefnogi dysgu plant. O ganlyniad, mae arweinwyr wedi gwneud newidiadau i'r ddarpariaeth sy'n cynorthwyo plant wrth iddynt drosglwyddo o un ystafell i un arall. Mae arweinwyr yn blaenoriaethu cyllid yn briodol i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd a nodwyd i'w gwella. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddysgu'r plant yn y lleoliad.

Mae arweinwyr yn meithrin synnwyr cryf o ymrwymiad a chydweithio o fewn y tîm. Maent yn gwerthfawrogi ac yn parchu pob un o'r ymarferwyr ac yn eu hannog i gyfrannu at lawer o agweddau pwysig ar waith y lleoliad. Mae arfarniadau staff, gwiriadau ac adolygiadau misol gyda staff newydd yn helpu sicrhau bod pawb yn cael cymorth a bod pob un o'r staff yn datblygu yn eu rolau yn briodol. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o brofiad mewnol i wella medrau staff. Er enghraifft, maent yn defnyddio medrau'r arlunydd preswyl i fentora a gwella medrau staff. O ganlyniad, mae staff yn datblygu dealltwriaeth gydlynus o pam mae ystafelloedd wedi'u trefnu mewn ffordd benodol, a sut i wneud y defnydd gorau o adnoddau i ddatblygu chwilfrydedd plant a'u hawydd i ddysgu. Mae dysgu proffesiynol tra ystyriol a chydgysylltiedig ar gyfer ymarferwyr ar draws y lleoliad yn dangos ymrwymiad arweinwyr i ymestyn medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr. O ganlyniad, maent yn cynnig addysgu a phrofiadau dysgu o'r safon orau i bob plentyn.

Mae arweinwyr wedi meithrin ymdeimlad cryf o gydweithio ymhlith y staff. Enghraifft nodedig o hyn yw'r ffordd y mae pob un o'r ymarferwyr yn cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd rheolaidd lle maent yn gwerthuso cynnydd plant ac yn cynllunio ar gyfer eu camau nesaf. Mae gan arweinwyr rôl bwysig mewn sicrhau bod y trafodaethau hyn yn canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth plant.

Mae arweinwyr yn gweithio'n dda gyda lleoliadau eraill. Maent yn rhannu eu harfer yn ystod diwrnodau hyfforddi ac yn defnyddio'u dealltwriaeth o'r cwricwlwm nas cynhelir newydd i wella hyder i'w roi ar waith gydag eraill. Mae gan ymarferwyr berthnasoedd agos â rhieni a gofalwyr, sy'n teimlo bod croeso iddynt yn y lleoliad. Mae rhieni'n cwblhau proffil am eu plentyn, ei hoffterau, ei gasbethau a sut orau y gellir

cynorthwyo'r plentyn pan fydd yn dechrau yn y lleoliad. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth werthfawr i arweinwyr, sy'n eu helpu i gynllunio sut orau y gallant gefnogi anghenion plant unigol. Caiff rhieni eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plentyn trwy gydol y flwyddyn, a rhennir gwybodaeth werthfawr yn ddiogel trwy blatfform electronig. Rhennir mwy o wybodaeth gyffredinol â chynulleidfa ehangach ar eu tudalen ar y cyfryngau cymdeithasol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/05/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 10 Mai 2024